Dychwelwch eich ymgais yn y post neu â llaw i'r cyfeiriad isod erbyn 5 Medi er mwyn cael eich rhoi yn y gystadleuaeth am becyn ditectif natur. Byddwn ni'n rhoi gwybod i'r enillydd. Ni fyddwn yn gallu dychwelyd eich ymgais. Bydd atebion yn cael eu rhoi ar y wefan ar ôl 5 Medi.

Enw

Cyfeiriad

Ffôn

E-bost

Gwasanaeth Warden Parc Arfordirol Penrhos
D/O AAM Y Porthdy
Gwaith Penrhos
Caergybi
Ynys Môn
LL65 2UJ

Ffôn: 01407 761338
Ffôn Symudol: 07758855118
E-bost: pcpwarden@tiscali.co.uk
Gwe: www.kehoecountryside.com/penrhos-coastal-park.html

Llwybr Natur yr Haf
Parc Arfordirol Penrhos

Dechreuwch wrth ymyl y pwll yn y prif faes parcio

1. A allwch chi weld unrhyw un o'r adar hyn ar y pwll neu gerllaw?

Hwyaden wyllt ☐

Cotiar ☐

Iâr ddŵr ☐

Gwylan ☐

Darluniau chan www.rspb.com
Ai canfyddi unrhyw arall adar alli ddisgwyl 'u i fyny acha 'r RSPB website.

Cerddwch ar hyd y llwybr ger y môr

2. Mae un o'r meinciau hyn er cof am sylfaenydd y parc, beth yw ei enw? _____

Dilynwch y llwybr o gwmpas i'r chwith, dewiswch y tro nesaf i'r dde drwy'r gât bren. Arhoswch wrth fynwent yr anifeiliaid anwes.

3. Mae mynwent yr anifeiliaid anwes yma ers yr adeg yr oedd ysbyty anifeiliaid yn arfer bod ar y safle. Edrychwch ar y cerrig bedd, a allwch chi weld enw cymeriad cartŵn? _____

Dewiswch y llwybr ar y dde, tuag at y môr. Ewch heibio'r cwt gwylio pren.

4. Edrychwch am rywle i orffwys ar eich ochr dde – sedd pwy yw hi?

_____

Roedd y dyn hwn yn artist sy'n enwog am beintio bywyd gwyllt ac adar yn arbennig.

Ewch ymlaen am dipyn o ffordd, wedyn dewiswch y tro nesaf i'r chwith

Ar y dde, fe allwch chi weld cae mawr a choed bach yn tyfu ynddo. Dyma'r Llain ac roedd yn arfer cael ei defnyddio ar gyfer rasio ceffylau. Mae'r coed rhwng 5 ac 8 mlwydd oed.

Ewch ymlaen ar hyd y llwybr hwn, nes i chi ddod at adeilad ar y dde.

5. Enw'r hen adeilad hwn yw'r tŷ pwmpio, a allwch chi weld y pwmp? Pa liw yw e?

_____

Ar yr adeilad mae hen fedd – edrychwch i weld a allwch ganfod unrhyw eiriau sy'n cael eu sillafu'n wahanol i'r ffordd rydym yn eu sillafu heddiw.

6. Beth yw'r flwyddyn gynharaf sydd wedi'i hysgythru ar y garreg fedd? _____

Ewch ymlaen ar hyd y llwybr

Ar hyd y llwybr hwn mae eithaf tipyn o goed leim – a allwch chi ddod o hyd iddynt o weld eu dail siâp calon?

Trowch i'r dde, ewch i fyny'r rhiw.

Small leaved lime

7. Mae rhai o'r coed fan hyn yn edrych fel petaen nhw wedi'u peintio - pa liwiau ydych chi'n gallu eu gweld ar eu boncyff?

Y darnau lliwgar yw cennau sy'n tyfu ar goed, creigiau ac adeiladau.

Ewch ymlaen yn syth nes ichi gyrraedd adeilad arall.

8. Y ffoli hwn yw'r Stondin betio, a godwyd tua dechrau'r 1800au ac a ddefnyddiwyd i wylio'r ceffylau'n rasio yn y Llain. Sawl bwa sydd ar yr adeilad? _____

Ewch i gyffordd y llwybr

9. Coed castanwydd yw'r ddwy goeden ar gornel, a ydych chi'n gwybod beth yw eu hadau? _____

Horse chestnut

Dewiswch y llwybr ar y chwith, ewch ymlaen nes ichi gwrdd â llwybr arall

Hyn ddeilia darluniau ydy chan Coed Cadw www.british-trees.com. Alli arfer 'i at ddisgwyl i fyny arall brennau canfyddi i mewn 'r barc.

Beach

Mae grŵp o goed ffawydd ar y chwith. Gallwch chi weld nad oes llawer o blanhigion eraill yn tyfu oddi tanynt fel sydd o dan goed eraill. Mae hyn gan fod ganddynt lawer o ddail trwchus sy'n cadw'r haul allan fel nad yw planhigion eraill yn gallu tyfu.

Trowch i'r chwith ar y llwybr beicio, yn ôl i'r maes parcio.